CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 11 MEHEFIN 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts JP, K Humphreys, R G Parry, C Ll Thomas, A Michael, S Parry, N Highley, I Rowlands

YMDDIHEURIADAU
Cyng E Huws

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.

DATGAN DIDDORDEB - Dim

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 14 Mai 2014
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14 Mai 2014, Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwran Ffarm - Pen Rhiw - Mae y Clerc wedi trefnu i'r Cyngor Sir cysylltu a Cyng A Michael
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae y Cadeirydd a'r Clerc yn disgwyl am prisiau ar gyfer y gwaith. Mae y Cadeirydd wedi derbyn prisiau am railings. Cynigodd Cyng I Rowlands cael pris arall. Bydd y clerc yn cael pris am goleuadau solar. Dywedodd y Cadeirydd bod y Ficar wedi cynnig gweinyddu yn y gwasanaeth wrth y gofab ar 3ydd o Awst.
Iorwerth Arms - Dywedodd y Cadeirydd bod y cyfarfod cyhoeddus wedi bod yn llwyddianus a bod pwyllgor wedi caei ei sefydlu i symud y mater ymlaen
Plaque Eisteddfod Mon - Mae Cyng C Thomas wedi cael caniatad gan y prifathrawes i symud ymlaen. Cyngigodd Cyng K Humphreys a Cyng I Rowlands symud y carreg
Cysgodfannau Bws - Bydd y Clwb Ieuenctid yn gwneud y gwaith yn yr wythnosau nesaf
Y Carreg Filltir - Mae'r cadeirydd yn disgwyl pris am y gwaith
20 myh wrth ymyl yr ysgol - Mae'r Cyngor Sir wedi gwrthod gosod rampiau ar yr A5 ond yn fodlon cynnig cymorth am 20myh ar lon Salem. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir gosod rampiau ar Lon Salem.
Palmentydd - Mae'r Cyngor Sir wedi glanhau y palmentydd

LLOFNOD (Cadeirydd) 9 Gorffennaf 2014

ADRODDIAD Y CADEIRYDD- Dywedodd y Cadeirydd bod top y tyrau yn y maes chwarae wedi torri ac yn rhydlyd. Cynigodd Cyng K Humphreys a I Rowlands arolygu'r offer.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Cynllunio
16C197 cais llawn i ddymchwel y sied bresennol ynghyd a chodi 2 annedd newydd a creu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Dridwen, Bryngwran - penderfynwyd gwrthwynebu y cais ar y sail bydd 2 dy allan o gymeriad ymysg byngalos. Hefyd, mae'r ffordd yn anaddas

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Dim

MATERION ARIANNOL
Penderfynwyd talu y canlynnol - Cyng C Ll Thomas yn cynnig a Cyng N Highley yn eilio: Zurich Municipal £489.15, Cyngor Ynys Mon £72.00 (Rhent y maes chwarae)
Penderfynwyd ail gwneud MANDAD y banc. Bydd y canlynnol yn llofnodi dogfennau y banc: Cyng I Roberts, I Rowlands, K Humphreys, S Parry

MATERION ERAILL
Derbynwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol - Cyng C Ll Thomas yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.

LLOFNOD (Cadeirydd) 9 Gorffennaf 2014